



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**CYFARWYDDYD CYNLLUNIO ATODOL
SUPPLEMENTARY PLANNING
GUIDANCE**

**Cyfarwyddyd Cynllunio
Atodol
(CCA)**

Tai Fforddiadwy

Mai 2004

1. Mae darparu tai fforddiadwy er mwyn diwallu'r angen am dai yn agwedd bwysig ar bolisi cynllunio Ynys Môn. Penderfynwyd maint yr angen hwnnw ar Ynys Môn trwy arolwg anghenion tai o'r Ynys gyfan. Gall proffiliau anghenion tai cymunedau unigol a gwybodaeth arall sydd i'w chael o arolygon lleol atodol ychwanegu at y fath ddata cyffredinol ar angen. Bydd yr CCA yn cyfrannu at strategaethau Cynllunio a Thai y Cyngor.
2. Diffiniad eang tai fforddiadwy yw anheddau tai i ddiwallu anghenion y rhai sy'n byw mewn llety anaddas a'u hincwm yn eu hatal rhag prynu neu rentu tai addas a thai yn y farchnad cost isel. Gall tai fforddiadwy gynnwys cyfuniad o dai ar rent noddedig, perchenogaeth cartrefi rhad noddedig gan gynnwys rhannu perchenogaeth a "thai yn y farchnad cost isel". Mae angen cyflenwad o bob un o'r mathau hyn o dai y gynnal cymunedau cytbwys.
3. Mae darparu tai o'r fath yn gofyn am gydweithredu agos rhwng Gwasanaeth Tai a Chynllunio'r Cyngor, ynghyd a phartneriaid cymdeithasol a'r diwydiant datblygu ar yr Ynys.
4. Mae amrywiaeth o safleoedd datblygu newydd lle bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn disgwyl i'r angen am dai fforddiadwy gael sylw fel a ganlyn (yn nhrefn blaenoriaeth):
 - (1) trwy ddarpariaeth ar y safle neu
 - (2) trwy ddarpariaeth oddi ar y safle neu
 - (3) trwy dalu swm yn lle darpariaeth o'r fath.
5. Gall peidio a rhoi sylw priodol i'r angen am dai fforddiadwy fod yn rheswm perthnasol dros wrthod caniatad i ddatblygu. Blaenoriaeth glir y Cyngor yw i ddatblygwyr ddarparu cartrefi fforddiadwy ar safle er mwyn sicrhau cymunedau cymysg ar yr Ynys.
6. Mae'r CCA hwn yn nodi'r trefnau a'r peirianwaith at wneud penderfyniadau ar faterion o'r fath. Mae'n cynnwys gofyniad i'r ymgeisydd feddu a'r "gysylltiadau lleol cryf" ynghyd destun tai fforddiadwy a darperir trwy safleoedd eithriad a thai marchnad cost isel.
7. Wrth ddangos disgwyliadau cyfundrefn y Cynllun Datblygu yn eglur o ran tai fforddiadwy, gobaith y Cyngor yw y bydd darparu tai o'r fath trwy'r gyfundrefn gynllunio yn gwella ar Ynys Môn yn y dyfodol. Bydd hyn yn canmol y gwaith a gyflawnwyd ar gyfer cyflenwad tir cyffredinol, yn arbennig Cyd-Astudaethau Cyflenwad Tai ar gyfer Tai fel y gofynwyd gan NCT 1.
8. Mae'r Cyngor yn disgwyl i ddatblygwyr gyflwyno darpariaeth ar gyfer gwahanol ofynion tai fforddiadwy fel rhan o gynigion dylunio dechreuol cynllun tai newydd.

9. Dylai cynllun tai fforddiadwy fod o'r safon uchaf fel ag i gyfoethogi ansawdd cymunedau lleol ar yr Ynys.

10. Mae'r Cyngor yn adolygu ei bortffolio eiddo i nodi cyfleoedd am dai fforddiadwy.

1. Cyflwyniad a Diben
2. Diffiniadau - Tai Fforddiadwy a'r Angen am Dai
3. Cydweithredu i Ddarparu Tai Fforddiadwy
4. Darparu Tai Fforddiadwy
5. Dylunio
6. Trefnau
7. Cytundebau
8. Safleoedd Tai Eithriedig
9. Tir y Cyngor a Thai Fforddiadwy
10. Diwedd glo

Atodiadau

1. Strategaeth Tai
2. Cyfarwyddyd Cost Derbyniol
3. Trefnau
4. Siart Lif
5. Trefn Safleoedd Eithriad
6. Cyfrifiannell Fforddiadwyedd
(Ffurflen Asesu Tai Fforddiadwy)
7. Pennawdau Cytundeb Cyfreithiol

Cyfeiriadau

CYFLWYNIAD A DIBEN

"Mae angen y gymuned am **dai fforddiadwy** yn ystyriaeth gyllunio berthnasol y mae'n briodol i'w hystyried wrth lunio polisiau CDU. Mae hefyd yn elfen hanfodol wrth gyfrannu at adfywio cymunedol a chryfhau cymhwysiant cymdeithasol. Yn nhermau cynllunio, gall fod yn ddymunol i ddatblygu tai newydd mewn ardaloedd trefol a gwledig gynnwys cymysgedd a chydbwysedd rhesymol o fathau a meintiau o dai i ddarparu ar gyfer ystod o anghenion tai".

Polisi Cynllunio Cymru paragraff 9.2.14 (Mawrth 2002)

"Mae'r term yn disgrifio'r sefyllfa lle bo teulu'n byw mewn ty sydd islaw safonau isaf neu sy'n methu diwallu eu hanghenion hanfodol mewn ffyrdd eraill a sydd heb ddigon o incwm i rentu neu brynu'r ty rhataf hyn y oed am brisiau'r farchnad dai sydd ohoni".

Asesu Anghenion Tai Lleol - Arweiniad i Arferion Da, Y Swyddfa Gymreig (Mai 1999)

1.1 Cyfarwyddyd cynllunio atodol (drafft) yw'r ddogfen hon a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn i ategu polisiau mabwysiedig ac eginol y cynllun datblygu. Y cynlluniau perthnasol a'r polisiau cysylltiedig yw:

Cynllun Lleol Ynys Môn (1996) - Polisi 51 a Pholisi 52 yn benodol
Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993) - Polisi A9
Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn - Polisi HP7.

1.2 Diben y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) hwn yw rhoi cyngor manwl i gymunedau lleol, datblygwyr a defnyddwyr eraill y gyfundrefn gyllunio ar sut y caiff polisiau'r Cynllun Datblygu ar dai fforddiadwy eu gweithredu. Felly, mae'r CCA yn cryfhau'r cyfraniad y gall y gyfundrefn gynllunio ei wneud i ateb her sylweddol darparu tai fforddiadwy ychwanegol ar Ynys Môn. Fodd bynnag, rhaid cydnabod na all penderfyniadau cynllunio ffurfio ond un rhan o strategaeth ehangach am nad yw'r gyfundrefn gynllunio, at ei gilydd, ond yn trin ceisiadau am ddatblygu tai newydd. Rhan fechan yn unig o'r stoc dai i gyd ddaw trwy ddatblygu o'r fath. Mae gan Strategaeth Tai y Cyngor (Mai 2004) bum thema allweddol:

- Ansawdd ac Effeithiolrwydd Egni Anheddau
- Cynllun, Hygyrchedd a Defnyddioldeb Anheddau
- Anghenion Tai a March a Marchnadoedd Tai
- Cynaliadwyedd Cymunedol a Chynhwysiad Cymdeithasol
- Gwasanaeth Hybglig a Fframweithiau Cefnogi

Bydd yr CCA yma yn chwarae rol arbennig oddi fewn ymateb i'r trydydd o'r themau uchod, yr hyn sydd yn cael ei atgynhyrchu yn atodiad un. Cyfeirir hefyd at faterion ehangach - trwy Strategaeth Tai y Cyngor - gan gynnwys adnewyddiad eiddo sy'n bodoli, cyd-weithio gyda pherchnogion preifat ac yn y blaen.

1.3 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod y dylai pobl allu dewid eiddo i'w brynu neu rentu mewn amrywiaeth o gymunedau ar hyd a lled yr Ynys yn unol a'u

hanghenion, eu dyheadau a'u moddion ac o fewn fframwaith bras polisiau cynllunio a thai a sefydlodd y Cyngor Sir a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn hefyd yn gofyn am ddatblygiad cynaliadwy er mwyn i rhain sydd angen tai allu defnyddio gwasanaethau eraill e.e. ysgolion, bysus a.y.y.b. Mae'r angen am dai fforddiadwy mewn cymuned yn ystyriaeth gynllunio berthnasol a bydd y gyfundrefn gyllunio'n ceisio cynyddu cyflenwad tai fforddiadwy trwy gyd-drafod a datblygwyr. Yn yr un modd gall peidio a rhoi sylw i faterion fforddiadwyedd fod yn rheswm dros wrthod datblygiad ar adeg gwneud cais cynllunio.

1.4 Mae'r Cyngor wedi neilltuo amrediad o safleoedd tai ar gyfer pwrpas y farchnad gyffredin oddi fewn y Cynllun Datblygu. Dymuna'r Cyngor sicrhau fod tai fforddiadwy yn boddoli pobl mewn angen sydd a "chysylltiadau lleol cryf" - yn ol polisiau'r CDU. Darperir diffiniadau ar gyfer hyn.

1.5 Fodd bynnag (yn y tymor byr), mae'n rhaid i safleoedd, sy'n symud ymlaen at gymeradwyaeth o dan polisiau'r cynllun mabwysiedig, gytuno gyda'r diffiniad "person lleol" fel y diffinwyd ym mholisiau 51 a 52 o'r cynllun:

"Y diffiniad o BERSON LLEOL yw un sydd wedi bod a'i brif neu ei unig gartref yn Ynys Môn neu wedi bod yn gweithio ar yr ynys am o leiaf 5 mlynedd. (Gall y cyfnod o 5 mlynedd gynnwys cyfnod byw a chyfnod gweithio ar yr ynyd a'r ddau wedi eu hychwanegu at ei gilydd)".

DIFFINIADAU - TAI FFORDDIADWY A'R ANGEN AM DAI A CHYSYLLTIADAU LLEOL CRYF

a) Tai Fforddiadwy

2.1 Datgania Nodyn Cyngor Technegol (NCT 2 1996) o Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, "Defnyddir y termau 'tai fforddiadwy' neu 'gartrefi fforddiadwy' i gynnwys tai y farchnad cost isel a thai a gymorthdelir ill dau (beth bynnag fo'r ddeiliadaeth, y berchnogaeth gyfyngedig neu ranedig, neu'r trefniadau ariannol) a fydd ar gael i bobl na all fforddio meddiannu'r tai sydd ar gael yn gyffredinol ar y farchnad agored". Mae'r diffiniad, felly, yn eang ac mae pwrpas polisiau cynllunio'r Cyngor yw codi y nifer o'r fath dai fforddiadwy ar yr Ynys.

2.2 Mae "Tai Fforddiadwy" yn cynnwys:

a) anheddau - sydd a'r amcan o fodloni anghenion y rhain sy'n byw mewn llety anaddas a sy'n cael eu rhwystro gan eu hincwm rhag prynnu neu rentu tai addas.

b) Tai Marchnad Cost Isel y gellir eu darparu am bris is na'r marchnad bennaf, ond sy'n cwrdd ag anghenion pobl ni allant fforddio prisiau'r farchnad dai cyffredinol achos mae eu hincwm rhwystro rhag prynnu'r math/faint o eiddo maent yn ei angen. Mae enghreifftiau yn cynnwys anheddau a gefnogwyd gan y cynllun Cymorth Prynu neu cytundeb ecwiti cyfrannol ac eiddo wedi ei reoli gan gyfamod.

Cyfeiria polisi CDU HP7 at "anheddau fforddiadwy" er mwyn sicrhau bod pob ffurf o ddatblygiad preswyl - tai, fflatiau, maisonettes a.y.y.b. - yn cael ei chlustnodi fel tai fforddiadwy ac nid fel tai yn syml.

2.3 Yna mae tai fforddiadwy yn golygu anheddau sydd o fewn cyrraedd i'r math grwpiau o bobl. Ni fydd Tai Marchnad Cost Isel yn cynorthwyo y rhain sydd angen tai fforddiadwy y mwyaf, ond fel all helpu cymuned leol trwy wella'r cymysgedd a'r fath o dai sydd ar gael.

Mae rol "safleoedd eithriad" yn cael ei thrin yn adran 8 isod.

b) Anghenion Tai

2.4 "Anghenion Tai" - Dywedodd y cyfarwyddyd a ddefnyddiwyd ar gyfer Arolwg Anghenion Tai Ynys Môn bod "y term 'angen' yn disgrifio'r sefyllfa lle bo teulu'n byw mewn ty sydd islaw safonau isaf neu sy'n methu diwallu eu hanghenion hanfodol mewn ffyrdd eraill a sydd heb ddigon o incwm i rentu neu brynu'r ty rhataf hyd yn oed am brisiau'r farchnad sydd ohoni".

2.5 Mae'r diffiniad hwn yn ein cynorthwyo i wahanieithu rhwng rol tai fforddiadwy er mwyn cwrdd a'r angen tai (fel y diffinwyd i'r Arolwg Anghenion Tai a thai marchnad cost isel "rhatach") sy'n helpu sicrhau cymysgedd o anheddau a chynlluniau fforddiadwy oddi fewn prosiectau tai newydd mewn trefni a phentrefi cefn gwlad Ynys Môn.

Fe all yr angen godi er amrywiaeth o resymau, gan gynnwys:

Pobl sydd ddim yn berchenog ty ond sydd yn sefydlu cartref newydd, e.e. priodas

Yr ifanc, yr henoed, pobl sydd ag anableddau/broblemau meddygol, yr ymddeoledigion - sydd angen llety llai neu arbennig

Cartrefi sy'n cynnwys pobl cyflogedig neu sy'n mynd i gael cyflogaeth yn Sir Fon, gan gynnwys gweithwyr allweddol

Pobl sy'n byw oddi allan Ynys Môn, ond sydd wedi sefydlu clymau teuluol gyda'r Ynys

Pobl mae trigolion Ynys Môn yn dibynnu arnynt er mwyn cefnogaeth.

Ym mhob cais gofynner dangos tystiolaeth yr angen am anhedd fforddiadwy ac yn ychwanegol - cytundebau cyfreithiol ar eiddo sy'n cael ei gymeradwyo yn ol polisiau tai fforddiadwy.

c) Cysylltiadau Lleol Cryf

2.6 Rheoler preswyliaid tai fforddiadwy sydd yn cael eu rhentu trwy'r rhestr ddisgwyl a pholisiau neilltuo cymeradwyiedig y Cyngor. Mae polisiau'r Cyngor hyn eisoes yn werthfawrogi cysylltiadau rhywun gyda'r gymuned leol - yn ychwanegol i ddiffirfoldeb o'i angen am dai.

2.7 Ar gyfer "Tai Marchnad Cost Isel" a "Safleoedd Eithriad" bydd yr ymgeisydd/breswlydd angen profi (a) yr angen am dai (b) cysylltiadau lleol cryf - a ddiffinir fel person sy'n cwrdd a thri o'r disgrifiadau canlynol o leiaf:

- 'Roedd ei r(h)ieni yn breswylwyr parhaol adeg ei (g)eni;
- Roedd ef/hi mewn breswyliaid parhaol yn yr ardal pum mlynedd fel plentyn a oedd yn mynychu'r ysgol neu a oedd yn mynychu ysgol neu a oedd yn mynychu ysgol oddi allan yr ardal oherwydd rhesymau arbennig, ond a buasai'n ddisgwylieidig i fynychu ysgol leol ond am y rhesymau arbennig hyn;
- Mae ef/hi yn breswlydd presennol yn yr ardal, neu wedi bod yn breswlydd yr ardal o'r blaen am gyfnod parhaol o 15 mlynedd fel oedolyn;
- Mae ef/hi yn gyflogedig yn yr ardal, neu mae ganddo/hi gynnig cyflogaeth penagored yn yr ardal na all ei dderbyn onibai ei bod/fod yn breswlydd yn yr ardal;
- Mae ganddo/hi riant sy'n byw yn yr ardal'
- Yn achos person dros 55 mlynedd oed sydd a mab/ferch neu lysfab/lysferch neu blentyn mabwysiedig sy'n byw yn yr ardal yn presennol;
- Mae ganddo/hi gefnogaeth y cyngor tref/gymdeithas ar gyfer ei siawns fel "person lleol".

ch) Maint yr Angen

2.8 Awgrymodd Arolwg Anghenion Tai Ynys Môn 2001 bod "gofyniad sylweddol am dai fforddiadwy ychwanegol yn nhiriogaeth y Cyngor". (Cyfrol III - Pennod 11). Gwelodd hefyd bod "angen blynyddol dros y pum mlynedd nesaf am 589 o gartrefi fforddiadwy ... (a) bod amcangyfrif diffyg blynyddol o 311 o anheddau fforddiadwy y

flwyddyn am y pum mlynedd nesaf". (Mae hyn yn ofyniad crynswth o 589 llai cyflenwad blynyddol o 278 o unedau, yn gadael gofyniad blynyddol clir o 311). Mae'r angen mwyaf ymysg trigolion yn y sector rhentu preifat (Cyfrol III - Pennod 4).

2.9 Yn ogystal a'r arolwg hwnnw mae Rhestr Disgwyl Tai y Cyngor yn rhoi gwybodaeth barhaol i ysbrydoli penderfyniadau ar faterion tai a bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth ar gyfer paratoi proffiliau anghenion tai cymunedau lleol.

2.10 Tra bo'n amlwg y bydd anghenion tai i'r Ynys yn newid dros gyfnod, mae'r Cyngor, serch hynny, wedi cael y dystiolaeth sydd ei hangen yn ol Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002) a Chyngor Technegol 2 (Cynllunio a Thai Fforddiadwy 1996) i geisio darparu tai fforddiadwy trwy'r gyfundrefn gynllunio ar Ynys Môn.

2.11 Mae modd cefnogi'r dystiolaeth gyffredinol hon o angen, a'i harchwilio'n fwy manwl, pan ddaw adeg hystyried ceisiadau unigol am ddatblygiad. Gall cyfraniad cymunedau lleol wella proffiliau o'r fath.

2.12 Bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn edrych ar ddata anghenion tai y gall y Gwasanaeth Tai eu darparu ar y ffurf a welir yn y tabl isod:

Pentref / Tref			
			Trosiant Blynyddol (canran y stoc)
Cyfanswm Stoc	Awdurdod Lleol		
	RSL		
	Preifat ar Rent (amc HB a'r gofrestr gyffredin)		
Dim eiddo wedi ei werthu trwy RTB			
Dim eiddo wedi ei gaffael trwy Cynllun Cymorth Prynu			
Dim cais ar y gofrestr dai gyffredin			
Dim ymgeiswyr ar gofrestr Cynllun Cymorth Prynu			
Dim cartrefi gwag			
Dim eiddo ar werth			

Gall arolygon lleol a sylwadau cyngorau cymuned ac ati ychwanegu at yr wybodaeth hon.

2.13 Gall y Cyngor dderbyn gwybodaeth atodol oddi wrth ddatblygwyr hefyd o ran fforddiadwyedd tai mewn cymunedau neu ar gyfer unigolion ar yr Ynys. Rhaid sicrhau'r Cyngor, yn unol a chyfarwyddyd y Cynlluniad, bod gwybodaeth o'r fath yn

dod o ffynonellau data cadarn a dibynadwy ac yn berthnasol i brisiau tai a rhenti lleol, incymau lleol a chyflenwad ac addasrwydd y tai sydd ar gael.

2.14 Yn y sefyllfa lle mae datblygydd yn pleidio ni ellir darparu anheddau fforddiadwy ar safle neilltuol, yna disgwylia'r Cyngor Sir dadansoddiad ymarferoldeb manwl o'r cynllun a'i costau cysylltiedig. Fe all y Cyngor ddewis cadw cyngor arbennigol allanol er mwyn cymorth i'r faith trafodaethau. Ni ystyrer costau datblygu cyffredin fel costau anarferol e.e. gwaith chwalu, tirlunio, byndiau twrw, mesurau atal llifogydd, arolygau archaeolegol ac ecolegol.

CYDWEITHREDU I DDARPARU TAI Fforddiadwy

3.1 Ni all fod fawr amheuaeth y bu her darparu digon o dai fforddiadwy yn ganolog i lawer o bryderon tai a chyllunio dros y blynyddoedd diwethaf. Caiff diffyg tai o'r fath ei ddisgrifio'n aml fel "argyfwng" sy'n effeithio ar gylchoedd gwledig a threfol fel ei gilydd erbyn hyn. Mae wedi ysgogi cryn drafodaeth, ac mae'n amlwg bod polisi'r llywodraeth yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddablygu polisiau ac arweiniadau mewn ymateb i'r her hon. Thema llawer o bolisi'r llywodraeth yw'r angen am "gymunedau cynaliadwy", neges sydd hefyd wrth galon y "Weledigaeth" sy'n sail i Gynllun Datblygu Ynys Môn.

3.2 Mae'r Cyngor yn derbyn ei gyfrifoldeb yn hyn o beth ac mae'r CCA hwn yn dangos y trefnau a'r arferion fydd yn gweithredu ar gyfer chwaraewyr eraill, gan gynnwys y diwydiant datblygu, eu cynghorwyr a'u hasiantau, i wneud y cynnydd angenrheidiol wrth ddod ag amrywiaeth o dai addas i symud tuag at ateb yr her hon. Mae angen agwedd gorfforaethol, seiliedig ar gydweithrediad rhwng Gwasanaethau'r Cyngor, i sicrhau darparu mwy o dai fforddiadwy a sy'n tynnu ar Wasanaeth Tai, Cynllunio, Cyfreithiol ac weithiau Eiddo'r Cyngor.

3.3 Wrth gwrs, ac fel y caiff ei ddatgan yn yr Arolwg Anghenion Tai, "nid oes unrhyw reswm dros feddwl, unwaith y gwelwyd yw anghenion tai, bod raid diwallu'r holl anghenion trwy'r gyfundrefn gynllunio". Aiff yr adroddiad ar Arolwg 2001 yn ei flaen i esbonio y gall newid o fewn y stoc dai bresennol roi sylw effeithiol i'r anghenion ddaw i'r amlwg. Bydd gweithredu o'r fath yn digwydd yng ngoleuni Strategaeth Dai y Cyngor.

3.4 Mae data'r Gofrestra Tir yn dangos yn glir pam y daeth tai fforddiadwy yn fater pwysig ar Ynys Môn, fel mewn rhannau eraill o Gymru a'r DU.

Newidiadau ym Mhrisiau Tai 2000 - 2003

	Chwarter Olaf 2000	Ail Chwarter 2003	% Newid
Ty ar Wahan	87,461	148,370	69.64
Ty Par	50,927	88,241	73.27
Ty mewn Rhes	37,128	66,315	78.61
Fflat / Fflat deulawr	78,500	124,900	59.11*
Pob Math - Cyfartaledd	64,210	107,941	68.11

(* nifer bychain o werthiadau ar yr Ynys yn y categori hwn yn arwain at amrywieithau mawr)

Mae'n amlwg bod codiadau pris o'r fath ymhell uwchlaw cynnydd mewn cyflogau dros yr un cyfnod a bydd wedi gwneud problem cael tai addas yn anoddach.

3.5 Yng ngoleuni ffigurau o'r fath mae ymateb yn effeithiol i her tai fforddiadwy yn gofyn am gydweithredu agosach nag erioed felly rhwng y Gwasanaethau Cynllunio a Thai, ynghyd a chwarewyr eraill yn y broses tai fel landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac adeiladwyr a datblygwyr lleol.

DARPARU TAI Fforddiadwy

4.1 Er mwyn bod o gymorth i bawb sy'n gweithio gyda'r CCA hwn, mae angen nifer o ddiffiniadau a meini prawf.

a) Beth sy'n Fforddiadwy?

4.2 Yn ganolog i'r gofyniad am dai fforddiadwy mae mesur o'r berthynas rhwng incwm a phrisiau prynu neu rentu eiddo yn y farchnad dai leol. I fod yn fforddiadwy:

rheid i rentu annedd beidio a bod yn fwy na 30% o incwm clir y cartref,

neu

ni ddylai taliadau morgais fod yn fwy na 3 gwaith incwm defnyddiadwy clir y cartref, (incwm llai treth incwm ac yswiriant gwladol ond yn cynnwys budd-dal tai os caiff ei dalu) gan gynnwys incwm priod neu gymar

Mae'n rhaid i gostau tai cyfanswm, gan gynnwys Talau Gwasanaeth lle sy'n gymwysadwy, syrthio oddi fewn y lefel incwm o 30%.

b) Prisiau Tai "Fforddiadwy"

4.3 Er mwyn hwyluso trafodaethau ynghylch tai fforddiadwy mae angen arweiniad pellach ynghylch yr hyn y mae'r Cyngor yn ei ystyried fel amrediad pris addas i sicrhau darpariaeth o dai fforddiadwy mewn cynlluniau datblygu. Mae cyfarwyddyd y Llywodraeth yn awgrymu nad yw cyhoeddi gwir ffigyrau ar bris tai fforddiadwy yn ddefnyddiol bob amser oherwydd newidiadau yn y cysylltiad rhwng prisiau ac incwm.

4.4 Mae'r Cyngor o'r barn fod er mwyn bod yn fforddiadwy, ac amlhau o'r eithaf cyfleoedd mynediad i bobl mewn angen fforddiadwy, dyled ddarparu'r tai marchnad cost isel yn oddeutu am y prisiau fel a sefydlwyd yn y Cyfarwyddyd Cost Derbyniol (CCD) ar gyfer defnydd grant tai cymdeithasol fel y gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynlluniad Cenedlaethol. Mae'n anochel ceith manylion y safle a'i nodweddion datblygu effaith ar y sefyllfa. Mae gan yr CCD llabedau er mwyn cydnabod costau gwahanol yn ardaloedd marchnad yr Ynys. Ar adeg paratoi'r CCA hwn (Gwanwyn 2004) fe ddangoser yr CCD yn atodiad dau, ond cofiwch gofyn am y fersiwn diweddaraf.

4.5 Wrth gyfri costau ennill tir dyled peidio cymryd yn ganiataol fod cymhorthdal ariannol mwen ffurff Grant Tai Cymdeithasol wastad ar gael. Mae'n bwysig caniatáu fod cynlluniau di-GTC (Grant Tai Cymdeithasol) yn gallu bwrw ymlaen er mwyn amlhau i'r eithaf potensial darparu tai fforddiadwy ar Ynys Môn.

c) Trothwyon - Pryd ddylid darparu tai fforddiadwy?

4.6 Pob safle o 10 neu fwy fel y nodwyd ym Mholisiau 51 a 52 yng Nghynllun Lleol Ynys Môn, ac ar safleoedd o 10 neu fwy (neu 5 neu fwy mewn pentrefi) fel y

nodwyd ym Mholisi HP7 yn y CDU eginol. Mae'r Cyngor yn ystyried bod polisi HP7 y CDU, o'i ddarllen ochr yn ochr a pholisiau'r Cynllunio Lleol ar dai fforddiadwy, yn ystyriaeth berthnasol ar adeg penderfynu ceisiadau cynllunio. (Bydd y Cyngor eisiau gweithredu'r polisi ar arwynebedd safleoedd os oes teimlad bod ymgeiswyr yn ceisio tanseilio'r trothwy - bydd y polisi'n berthnasol i bob safle o 0.3 hectar neu fwy).

4.7 Felly, bydd disgwyl i ddatblygwyr ystyried y gofyniad hwn (30% unedau fforddiadwy) pan yn trafod telerau prynu tir i'w ddatblygu ac yn paratoi cynigion dylunio ar gyfer safleoedd.

ch) Mathau o Dai Fforddiadwy

4.8 Mae'r 3 dewis canlynol ar gael i'r ymgeisydd ddarparu'r tai fforddiadwy. Yn nhrefn blaenoriaeth, y rhain yw:

(1) Eiddo i'w werthu/i'w brydlesu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL).

Un o nodweddion y math hwn o lety yw rhent islaw'r farchnad, fel arfer yn cael ei dalu'n wythnosol. Mae'n bwysig sicrhau bod yr unedau hyn yn cael eu diogelu ar sail barhaol. Mae'r Cyngor yn trin faint o rent sy'n cael ei godi gan RSL fel fforddiadwy i'r mwyaf anghenus.

(2) Eiddo ar rent gyda amodau ar y deiliad ynghlwm wrth Bolisi Neilltuo Tai yCyngor a phreswylwyr i'w henwebu oddi ar restr aros y Cyngor.

(3) Gwerthu eiddo am ffigwr cyd-gytun gyda'r Cyngor yn amodol i gyfamodau a chytundebau ail-werthu.

4.9 Bydd y Cyngor yn ystyried trefniadau eraill gaiff eu hawgrymu gan ddatblygwyr, ond rhaid i'r rhain sicrhau fforddiadwyedd am byth.

4.10 Yn dilyn dadansoddiad ymarferoldeb, pe cytuner fod darpariaeth ddim wedi ei gwneud ar y safle, yna mae'r opsiynau yw:

(4) Taliad yn ei le i Gronfa Tai Fforddiadwy'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn defnyddio hon i dalu am dai fforddiadwy/cymdeithasol eraill ar ol cynhyrchu cronfa ddigonol ac y daw cyfleoedd addas sy'n unol a'r Strategaeth Dai Leol.

(5) Darparu tai fforddiadwy ar safle arall i'w gytuno gan y Cyngor a'r datblygwyr. Nid hwn yw'r dull sydd orau gan y Cyngor ond gall fod yn briodol os oes rhesymau cynllunio da pam nad yw darpariaeth yn addas ar y safle.

Graddoli ac Amseru

Bydd yr anheddau fforddiadwy, i'w darparu yn ol y polisiau yma, yn cael eu hamseru a/neu eu graddoli trwy gytundebau cyfreithiol tros safle datblygu er mwyn i'r unedau fforddiadwy gael eu darparu erbyn cam yn y datblygiad. Bydd y fath gytundeb yn sicrhau fod unedau fforddiadwy yn cael eu taenu lled y datblygiad.

d) Tai yn y Farchnad Cost Isel

4.11 Yn ychwanegol i'r pobl wedi eu hadnabod fel y maent mewn angen tai trwy Arolwg 2001, mae yn bobl eraill sydd heb fynediad i'r farchnad dai oherwydd prisiau pennaf yn berthynol i'w hincwm. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad ydy pawb o'r rhai sydd eisiau cael tai cost isel yn byw mewn llety anaddas. Yn wir, mae rhai o bobl eisiau dechrau ar yr ysgol eiddo am y tro cyntaf, ond y maent mewn angen fforddiadwy oherwydd nad ydynt yn gallu cyffwrdd a'r farchnad tai i gwrdd a'u hanghenion nhw. Fel y dywed uchod, dydy'r farchnad tai cost isel ddim yn cael ei hystyried fel ymateb addas i bobl mewn angen tai wedi ei ddifinio'n fanwl gywir a sydd angen tai fforddiadwy yn ol ddiffiniad a mesur yr arolwg angen tai. Fodd bynnag, fe all tai marchnad cost isel wneud cyfraniad gwerthfawr i sicrhau amrediad digonol o maeth o dai ar Ynys Môn. Yr her allweddol yw sicrhau fod anheddau sy'n cael eu darparu trwy'r ffordd yma yn fforddiadwy i bobl ar incwm isel a gwylaidd.

4.12 Anoger mathau cymysg o ddatblygiad er mwyn cyffwrdd ag anghenion gwahanol cymunedau tref a chefn gwlad gan gynnwys cartrefi cychwyn ac angen pobl hynach, cartrefi person sengl a.y.y.b.

4.13 Disgwylia'r Cyngor i ddatblygwyr ddod ag anghenion gwahanol o dai fforddiadwy - sy'n cael eu trin fel rhan o'r cynigion cynllunio cynnar ar gyfer cynllun tai newydd.

4.14 Fel y dywed uchod bydd angen cytundebau cyfreithiol er mwyn sicrhau fod y fath o dai yn cael ei chadw'n gaffaeladwy i'r rhain sydd mewn angen tai fforddiadwy yn y dyfodol.

dd) Proffiliau Anghenion Tai / Cymunedol

4.15 Dangosa arolwg 2001 fod y cyfiawnhad ar gyfer polisiau tai fforddiadwy yn berthnasol ledled Ynys Môn. Bydd y Cyngor, fel yr awdurdod tai a chynllunio strategol, yn ceisio caniatu yr uchafswm o gyfleoedd.

Bydd Gwasanaeth Tai'r Cyngor yn cynorthwyo wrth ganfod anghenion arbennig unrhwyl ardal benodol o'r Ynys ac yn darparu proffil tai ar gyfer yr angen hwnnw i'r Gwasanaeth Cynllunio. Gall gwybodaeth gan y datblygwr ychwanegu at hynny ond idd fod yn gadarn a dibynadwy. Bydd yr wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Cyngor i benderfynu pa un o'r dewisiadau uchod sydd fwyaf addas i'r anheddiad dan sylw ac yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau gyda datblygwyr.

4.16 Hefyd, mae darganfyddiadau'r Cyfrifiad 2001 ar gael er mwyn cynorthwyo ein dealltwriaeth o gymunedau lleol a cheir ychwanegu data lleol.

e) Beth mae fforddiadwy am byth yn ei olygu?

4.17 Mae fforddiadwy am byth (naill ai i rentu neu i brynu) yn golygu bod yr annedd yn gorfod bod yn:

4.18 Er mwyn cyflawni'r sefyllfa hon bydd y datblygiad perthnasol angen cytundeb 106 cyfrwymol neu rwymedigaeth gynllunio sy'n cyfyngu:

Deiliadaeth yr annedd i'r rhai hynny sydd angen tai;

Gwerth o'r annedd wrth ail-werthu yn ol fformiwla.

4.19 Pe nad oes Perchennog Cymdeithasol Cofrestredig yn gyfrannog, yna bydd rhaid i'r Cyngor cynnal cytundeb cyfamod neu ail-werthu ar gyfer yr eiddo. Mae'r system hon yn darparu clicied i rybuddio'r Cyngor o ail-werthu'r eiddo ac eto ceir penderfynu gwerth yr eiddo er mwyn ei gynnal fel ty fforddiadwy.

DYLUNIO

a) Dyluniad o Safon Uchel

5.1 Creda'r Cyngor fod y dull y mae datblygwr yn ymdrin a chynllun tai preswyl, neu gynllun defnydd cymysg yn gallu helpu yn wirioneddol i gyfeirio at faterion tai fforddiadwy. Yn lle moddau adeiladu safonol ar gyfer cynlluniau byngalos, tai sengl a thai par, mae'r Cyngor yn teimlo fod angen mwy o amrywiaeth i gwrdd ag anghenion y rhain sydd mewn angen fforddiadwy, sef yr henoed, grwpiau ifengaf ac eraill. Bydd y Cyngor yn disgwyl safonau dylunio, trefnu a thirlunio uchel ar gyfer holl gynlluniau tai gan gynnwys y rhai ag elfen fforddiadwyedd. Dylai'r cynlluniau barchu cymeriad ac arbenigrwydd yr ardal lle cant eu hadeiladu a dylid eu lleoli fel nad oes modd gwahaniaethau rhyngyddyt a thai'r farchnad gyffredinol ar y safle.

5.2 Dymuna'r Cyngor weld dulliau dylunio sy'n dosbarthu anheddau fforddiadwy ar draws safle datblygu a dim sy'n eu darparu mewn un bloc yn syml.

b) Safonau Ehangder

5.3 Pwnc a all fod o bwys mawr gan sicrhau prosiect sy'n cael ei ddylunio er mwyn caniatu gwaith partneriaeth gyda Chymdeithasau Tai (a'r Grant Tai Cymdeithasol oddi fewn eu cynllun) yw safonau ehangder o'r anheddau perthnasol. Cyhoeddir gofynion safonau datblygu gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol fydd y Cyngor Sir yn cyfeirio atynt yn ei drafodaethau lle mae ehangder arfaethedig oddi fewn tai fforddiadwy yn fater o bryder.

5.4 Hefyd, fe all y Ansawdd Safon Tai Cymru fod o gymorth i greu safonau addas i ddatblygiadau lleol.

c) Hawliau Datblygu Caniataedig

5.5 To secure affordability in the longer term it is likely that the permitted development rights will be removed from the properties constructed as affordable housing.

ch) Dulliau Modern o Adeiladu

5.6 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o ddatblygiadau technoleg all caniatu dulliau modern o adeiladu ymatebion effeithiol ac effeithlon o gost i'r angen am fwy o dai fforddiadwy. Bydd y Cyngor yn parhau Mônitro'r fath datblygiadau technolegol ac yn chwilio'n weithredol i ymelwa ar gyfleoedd priodol a all fod o fudd i gymunedau lleol.
